




Busnes@
gwynedd.llyw.cymru



Canllaw Sgorio Cronfa Trawsffurfio





Y Gronfa Trawsffurfio

Mae cronfa Trawsffurfio yn darparu cymorth ariannol rhwng £25,000 a £250,000 i helpu busnesau Gwynedd i adfer a datblygu, sefydlogi a pharatoi ar gyfer y dyfodol. Y nod yw galluogi busnesau i gynyddu elw naill ai drwy arbedion neu gynyddu incwm. Gwahoddir cynlluniau prosiect cadarn a fydd yn helpu i arbed costau busnes yr ymgeisydd neu gynyddu eu hincwm.

Mae'r ddogfen hon yn egluro pa agweddau sy'n arbennig o bwysig wrth ddsbarthu grantiau, er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddyfarnu i'r cynlluniau mwyaf cadarn a chredadwy, sy'n cynnig y buddion uchaf am y swm a ddyfarnwyd.

Pwysiadau is-feini prawf

Achos strategol	Achos rheolaethol
Hygrededd y Prosiect (x1)	Dadansoddiad o'r cyllid (x1)
Manteision Arfaethedig (x2)	Risgiau a rhagolygon ariannol (x2)
	Sgiliau ac adnoddau (x1)

- Sgôr meini prawf = (sgôr yr is-feini prawf (1-5) x pwysiad) + (sgôr yr is-feini prawf (1-5) x pwysiad)
- Achos strategol = (Hygrededd y Prosiect x 1)+(Manteision Arfaethedig x2)
- Achos rheoli = (Dadansoddiad cyllid x 1) + (Risgiau ariannol a rhagolygon x 2) + (Sgiliau ac adnoddau x 1)
- Meini prawf asesu
- Mae'r tabl isod yn dangos 2 llynyn meini prawf y Gronfa Trawsffurfio a'r trothwyon sgorio pwysol ar gyfer pob un:



Meini prawf asesu	Isafswm sgôr wedi'i phwysoli ar gyfer llunio rhestr fer – Grant hyd at £50,000	Isafswm sgôr wedi'i phwysoli ar gyfer llunio rhestr fer – Grant hyd at £100,000	Isafswm sgôr wedi'i phwysoli ar gyfer llunio rhestr fer – Grant dros £100,000	Uchafswm sgôr pwysol sydd ar gael
Achos Strategol	8	10	12	15
Achos Rheolaethol	10	12	15	20

- Dylai ymgeisydd sydd â chynllun credadwy i greu neu ddiogelu swyddi sgorio pwyntiau bonws gwerth 0.5 pwynt am bob swydd a gaiff ei chreu neu ei diogelu, hyd at uchafswm o sgôr o 5.
- Dylid addasu sgôr cynlluniau llai credadwy, er enghraifft gall cynllun llai credadwy i greu 5 swydd sgorio rhwng 0.5 a 2 yn ôl barn yr aseswr o'r tebygolrwydd o wireddu'r swyddi dan sylw.

1. Achos Strategol

Pwrpas

Mae hyn yn ein helpu i benderfynu a yw'r prosiect yn gredadwy, ac a yw'r grant y gofynnir amdano yn gymesur â'r budd a amlinellwyd i'r busnes a'r economi leol ehangach.

Mae 2 is-faen prawf o fewn hyn:

- Hygrededd y Prosiect
- Manteision Arfaethedig



Is-feini prawf	Ffurflen gais gyfatebol neu gwestiwn Cynllun Busnes
a) Hygrededd y Prosiect	<ul style="list-style-type: none">• Rhestr o offer neu wasanaethau sydd eu hangen• Cynllun Busnes yn gofyn am:• Disgrifiad manwl o'r cynnyrch neu wasanaeth• Nodau ac amcanion (gan gynnwys y prosiect y mae'r ymgeisydd yn ceisio cyllid grant ar ei gyfer)• Dadansoddiadau SWOT/PESTLE• Ymchwil i'r Farchnad• Dadansoddiad cystadleuwyr
b) Manteision Arfaethedig	<ul style="list-style-type: none">• Gwerth am Arian - esboniad o sut y bydd y prosiect arfaethedig yn caniatáu i'r busnes gynyddu incwm neu leihau costau• - Sut bydd y prosiect yn caniatáu i'r busnes:• - Tyfu• - Bod yn fwy cynaliadwy• - Ysgogi buddsoddiad pellach yn y dyfodol• - Cyflwyno cynhyrchion, gwasanaethau neu farchnadoedd newydd• - Manylion Cyflogaeth - dadansoddiad o'r swyddi amser llawn a rhan amser presennol ac arfaethedig a grëwyd ac a ddiogelwyd• - Cynllun Busnes yn gofyn am:• - Effaith yr economi leol ehangach (e.e. cadwyni cyflenwi)

Yr hyn rydym yn chwilio amdano:

a) Hygrededd y Prosiect

Rydym wedi gofyn i ymgeiswyr gynnwys y canlynol yn eu cynllun busnes sy'n berthnasol i'r adran hon:

- Rhestr o offer neu wasanaethau sydd eu hangen
- Disgrifiad manwl o'r cynnyrch neu wasanaeth
- Nodau ac amcanion
- Dadansoddiadau SWOT/PESTLE
- Ymchwil i'r Farchnad
- Dadansoddiad cystadleuwyr



Bydd ceisiadau cryf yn glir iawn ynghylch yr hyn y mae angen iddynt ei brynu, pam fod angen yr eitemau neu'r gwasanaethau hynny arnynt, yn union beth y maent yn gobeithio ei wneud â hwy, ac a yw hyn yn cyd-fynd â'u model busnes ehangach.

Bydd ceisiadau cryf wedi rhoi ystyriaeth sylweddol i'r galw tebygol am eu cynnyrch neu wasanaeth, a byddant wedi cyfleu hyn yn effeithiol.

Sut i sgorio Hygrededd Prosiect	Sgor
<ul style="list-style-type: none">• Dadansoddiad o'r eitemau/gwasanaethau a ddarparwyd• Mae'r Offer a'r Gwasanaethau y gofynnwyd amdanynt yn ymddangos yn gyffredinol ddigonol a chymesur i gyflawni'r prosiect, er y gallai rhai elfennau fod wedi'u cyflawni'n fwy effeithlon• Esboniad rhesymol wedi'i roi o pam fod y prosiect yn angenrheidiol, a pham fod y dull arfaethedig o gyflawni'r prosiect yn un rhesymol• Rhai pryderon gyda nodau ac amcanion y prosiect• Ystyriaeth resymol o'r galw tebygol a chystadleuaeth ond nid oes yna digon o fanylion i wneud asesiad llawn	Boddhaol (0-1)
<ul style="list-style-type: none">• Dadansoddiad llawn o'r eitemau/gwasanaethau a ddarparwyd• Mae'r Offer a'r Gwasanaethau y gofynnwyd amdanynt yn ymddangos yn rhesymol a chymesur i ymgymryd â'r prosiect, er efallai bod mân elfennau wedi'u cyflawni'n fwy effeithlon• Eglurhad da pam fod y prosiect yn angenrheidiol, a pham fod y dull arfaethedig o gyflwyno'r prosiect yn un rhesymol• Dim pryderon sylweddol gyda nodau ac amcanion y prosiect• Lefel dda o ystyriaeth o'r galw tebygol a chystadleuaeth ond mae angen rhywfaint o fanylion o hyd	Da (2-3)
<ul style="list-style-type: none">• Dadansoddiad llawn o'r eitemau/gwasanaethau a ddarparwyd• Lefel uchel o hyder bod yr Offer a Gwasanaethau y gofynnir amdanynt wedi'u dewis yn dda ac yn gymesur i ymgymryd â'r prosiect,• Esboniad rhagorol wedi'i ddarparu ynghylch pam fod angen y prosiect, a pham fod y dull arfaethedig o gyflawni'r prosiect yn un rhesymol• Dim pryderon gyda nodau ac amcanion y prosiect• Lefel ardderchog o ystyriaeth o'r galw tebygol a chystadleuaeth	Cryf (4-5)



a) Manteision Arfaethedig

Rydym wedi gofyn i ymgeiswyr gynnwys y canlynol yn eu cynllun busnes sy'n berthnasol i'r adran hon:

- Gwerth am Arian – esboniad o sut y bydd y prosiect arfaethedig yn galluogi'r busnes i gynyddu incwm neu leihau costau
- Sut bydd y prosiect yn caniatáu i'r busnes:
 - o Tyfu
 - o Bod yn fwy cynaliadwy
 - o Ysgogi buddsoddiad pellach yn y dyfodol
 - o Cyflwyno cynhyrchion, gwasanaethau neu farchnadoedd newydd
- Manylion Cyflogaeth - dadansoddiad o'r swyddi llawn amser a rhan amser presennol ac arfaethedig a grëwyd ac a ddiogelwyd
- Effaith ar yr economi leol ehangach (e.e. cadwyni cyflenwi)

Bydd ceisiadau cryf yn cynnig lefel o fudd arfaethedig sy'n gymesur â lefel y grant y gofynnir amdano

Bydd ceisiadau cryf yn nodi sail resymegol a chlr i gynyddu eu hincwm, neu leihau eu costau yn sylweddol

Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr greu na diogelu swyddi gan ddefnyddio'r grant hwn, gan ein bod yn derbyn, mewn amgylchiadau heriol, bod cadw lefel barhaus o weithgarwch busnes hefyd yn werthfawr, ond bydd pwyntiau bonws yn cael eu dyfarnu ar gyfer y prosiectau hynny sy'n gallu gwneud hynny.

Wrth sgorio'r adran hon, rhaid i brosiectau sy'n gwneud cais am grant o hyd at £50,000 sgorio o leiaf "boddhaol", hyd at £100,000 rhaid sgorio o leiaf "da", £100,000+ sgorio "cryf"



Sut i sgorio Manteision Arfaethedig	Sgor
<ul style="list-style-type: none">• Ymgeisydd yn nodi rhesymeg resymol ar gyfer arbed costau neu gynyddu incwm, ond byddai mwy o fanylion wedi'u croesawu• Cynigir arbedion cost neu gynydd mewn incwm o hyd at 5%	Boddhaol (0-1)
<ul style="list-style-type: none">• Ymgeisydd yn nodi rhesymeg gadarn ar gyfer arbed costau neu gynyddu incwm, gyda'r rhan fwyaf o fanylion yn cael eu darparu• Cynigir arbedion cost neu gynydd mewn incwm o hyd at 10%.	Da (2-3)
<ul style="list-style-type: none">• Ymgeisydd yn nodi rhesymeg gwych ar gyfer arbed costau neu gynyddu incwm, gyda'r rhan fwyaf o fanylion yn cael eu darparu• Cynigir arbedion cost neu gynydd mewn incwm o hyd at 30%.	Cryf (4-5)

2. Achos Rheolaethol

Pwrpas

Bydd yr asesiad o'r achos rheoli yn helpu i benderfynu a oes gan y cynnig sail ariannol gadarn i adeiladu achos busnes cynaliadwy arni

Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i ystyried sut mae gan y sefydliad sy'n cyflawni'r prosiect y capasiti a'r adnoddau cywir i'w wneud yn gynaliadwy.

Mae tri is-faen prawf o fewn hyn:

(a) Dadansoddiad ariannu

(b) Rhagolygon ariannol a risg

(c) Sgiliau ac adnoddau



Is-feini prawf	Ffurflen gais gyfatebol neu gwestiwn Cynllun Gweithredu
a) Dadansoddiad Cyllido Costau Prosiect:	<ul style="list-style-type: none">• Cyfanswm cost Offer/gwasanaethau• grant cyfalaf sydd ei angen• grant refeniw sydd ei angen• Amserlen ar gyfer cwblhau'r prosiect Arian Cyfatebol: <ul style="list-style-type: none">• Cyfanswm yr arian cyfatebol a sicrhawyd, a disgrifiad o ble y daw arian cyfatebol• Rhaid i ymgeiswyr hefyd ddarparu prawf o arian cyfatebol
b) Risgiau a rhagolygon ariannol	Mae'r Cynllun Busnes yn gofyn am: <ul style="list-style-type: none">• Fformat cyfreithiol• Nodau ac amcanion y Busnes• Dadansoddiad SWOT/PESTLE• Eiddo deallusol• Ymchwil i'r Farchnad• Gweithrediadau Rhaid i ymgeiswyr hefyd ddarparu: <ul style="list-style-type: none">• Rhagolwg Ariannol 3 blynedd• Mantolen a chyfrifon elw a cholled am y 3 blynedd diwethaf• Cyfriflenni banc busnes am y 3 mis diwethaf• Cadarnhad o unrhyw ganiatâd perthnasol gan gynnwys gofynion cyfreithiol statudol. Rhaid i ymgeiswyr roi manylion unrhyw achrediadau ansawdd (e.e. ISO) sydd gan y busnes.
c) Sgiliau ac Adnoddau	Cynllun Gweithredu yn gofyn am CV i gynnwys: <ul style="list-style-type: none">• Profiad busnes blaenorol ac ati• Sgiliau, cymwysterau, gwybodaeth a phrofiad perthnasol• Diddordebau a hobiau (dewisol)• Cryfderau personol• Gwendidau personol• Unrhyw ofynion hyfforddi



Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano

(a) Dadansoddiad ariannu

Rydym wedi gofyn i ymgeiswyr gynnwys y canlynol yn eu cynllun busnes sy'n berthnasol i'r adran hon:

- Cyfanswm costau'r prosiect
- grant cyfalaf sydd ei angen
- grant refeniw sydd ei angen
- Cyfanswm y cais am gyllid (cyfalaf + unrhyw refeniw y gofynnwyd amdano)
- Manylion arian cyfatebol

Mae angen i gynigion gynnwys dadansoddiad clir o'r costau cyfalaf neu refeniw a geisir i brynu'r Offer neu'r Gwasanaethau sydd eu hangen. Dylai'r cais am gyllid fod hyd at £250,000 ac ni ddylai'r cais am gyllid fod yn fwy na 70% o gostau cyffredinol y prosiect.

Bydd cynigion cryf yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r costau cyfalaf y gofynnir amdanynt a ble/sut mae'n cyd-fynd â'r prosiect ehangach gyda nodiadau esboniadol yn ôl yr angen sy'n golygu bod y costau'n hawdd i'w dilyn ac y gellir eu gwirio'n hawdd fel rhai sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gwariant cymwys.

Mae'n bwysig bod prosiectau'n cael eu cwblhau a chyllid yn cael ei hawlio o fewn amserlen y rhaglen grant.

Sut i sgorio Dadansoddiad Ariannu	Sgor
<ul style="list-style-type: none">• Dadansoddiad bras o gostau wedi ddarparu• Rhai pryderon gyda chynllun y prosiect• Rhai pryderon y bydd yr ymgeisydd yn cwblhau'r prosiect ac yn gorffen hawlio arian o fewn amserlen y rhaglen grant• Cynllun y prosiect yn foddhaol ond efallai nad yw mor glir na manwl ag y byddai ei angen	Boddhaol (0-1)



<ul style="list-style-type: none">• Darparwyd dadansoddiad llawn o'r costau• Dim pryderon sylweddol gyda chynllun y prosiect• Lefel weddol o hyder y bydd y prosiect yn cwblhau'r prosiect ac yn gorffen hawlio arian o fewn amserlen y rhaglen grant• Mae cynllun y prosiect yn dda ond mae angen mwy o fanylion mewn rhai meysydd bach	Da (2-3)
<ul style="list-style-type: none">• Costau llawn wedi'u darparu gyda naratif cryf yn rhedeg trwy'r gwahanol rannau sy'n glir ac yn hawdd i'w dilyn• Cynllun prosiect clir sy'n nodi'r holl gamau sydd eu hangen i dynnu arian i lawr o fewn amserlen y rhaglen grant• Lefel uchel o hyder y bydd y prosiect yn cwblhau'r prosiect ac yn gorffen hawlio arian o fewn amserlen y rhaglen grant	Cryf (4-5)

(b) Risgiau a rhagolygon ariannol

Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano

Yn eu Cynllun Busnes rydym wedi gofyn i ymgeiswyr gynnwys y canlynol:

- Gweithgareddau neu wasanaethau wedi'u cynllunio
- Rhagolygon ariannol, gan gynnwys:
 - Ffynonellau incwm
 - Costau
 - Llif arian
- Sgiliau neu adnoddau cynlluniedig sydd eu hangen i reoli'r prosiect
- Risgiau a mesurau lliniaru sydd wedi'u hystyried

Mae angen i ymgeiswyr ddarparu trosolwg o'u model busnes, i ddangos eu bod wedi ystyried yr holl risgiau a'r hyn y gellir ei gyflawni sy'n gysylltiedig â'u prosiectau.

Byddwn yn asesu eu cynlluniau ar gyfer cynaliadwyedd tymor hir y prosiect drwy eu model busnes arfaethedig.

Bydd angen iddynt fod wedi cynnwys:

- Y gweithgareddau a'r gwasanaethau y byddant yn eu darparu, a chostau cysylltiedig ac incwm rhagamcanol y prosiect sy'n ffocws i'r cais am grant
- Elw disgwyliedig a sut bydd hwn yn cael ei ail-fuddsoddi yn y busnes



Sut i sgorio Risgiau a Rhagolygon Ariannol	Sgor
<ul style="list-style-type: none">• Cynllun busnes yn ymdrin â'r holl ofynion angenrheidiol ac mae ganddo naratif a dealltwriaeth glir o sut y bydd y busnes yn gynaliadwy yn y tymor hir.• Cynllun busnes yn rhoi rhai manylion am yr astudiaethau dichonoldeb a gynhaliwyd ganddynt os yn berthnasol. Mae'r astudiaethau'n ymddangos yn realistig ac ymarferol• Cynllun busnes yn nodi ac yn diffinio'r risgiau i gyflawni ac yn rhoi rhai mesurau lliniaru manwl a realistig• Mae rhagolygon ariannol/llif arian yn foddhaol ac yn cynnwys manylion cadarn am ragamcanion incwm/ffynonellau• Lle gwnaed cais am arian refeniw mae digon o gyfeiriad at ei angen neu bwysigrwydd wrth gyflawni'r prosiect• Mae digon o fanylion am unrhyw sgiliau neu adnoddau cynlluniedig sydd eu hangen i reoli'r prosiect• Bod digon o fanylion am y gweithgareddau neu'r gwasanaethau a gynllunnir a fydd yn cael eu darparu gan y busnes	Boddhaol (0-1)
<ul style="list-style-type: none">• Cynllun busnes yn cynnwys cryn dipyn o fanylion ac mae ganddo naratif a dealltwriaeth gref o sut y bydd y busnes yn gynaliadwy yn y tymor hir.• Cynllun busnes yn rhoi cryn dipyn o fanylion am unrhyw astudiaethau dichonoldeb y maent wedi'u cynnal lle bo'n berthnasol, ac mae'r astudiaethau'n realistig ac yn ymarferol.• Cynllun busnes yn nodi ac yn diffinio'n gywir y risgiau i gyflawni ac yn rhoi mesurau lliniaru cadarn a manwl.• Mae rhagolygon ariannol/llif arian yn fanwl, wedi'u mynegi'n dda ac yn cynnwys manylion realistig am ragamcanion incwm/ffynonellau• Lle gwnaed cais am arian refeniw mae cyfeiriad manwl at ei angen neu ei bwysigrwydd wrth gyflawni'r prosiect• Mae manylion da am unrhyw sgiliau neu adnoddau cynlluniedig sydd eu hangen i reoli'r prosiect• Mae manylion da am y gweithgareddau neu'r gwasanaethau arfaethedig a fydd yn cael eu darparu gan y busnes	Da (2-3)



<ul style="list-style-type: none">• Mae'r cynllun busnes yn glir, yn gynhwysfawr ac wedi'i ystyried yn ofalus gyda naratif a dealltwriaeth gref o sut y bydd y busnes yn gynaliadwy yn y tymor hir.• Cynllun busnes yn rhoi llawer iawn o fanylion am unrhyw astudiaethau dichonoldeb y maent wedi'u cynnal lle bo'n briodol, ac mae'r astudiaethau'n helaeth, yn realistig ac yn ymarferol.• Mae'r cynllun busnes yn nodi ac yn diffinio'r risgiau i gyflawni yn gynhwysfawr ac yn rhoi mesurau lliniaru clir, cadarn a helaeth• Mae rhagolygon ariannol/llif arian yn gynhwysfawr, yn glir ac yn cynnwys manylion hollgynhwysfawr ar ragamcanion incwm/ffynonellau• Lle gwnaed cais am arian referniw mae cyfeiriad cynhwysfawr at ei angen neu bwysigrwydd wrth gyflawni'r prosiect• Ceir manylion rhagorol am unrhyw sgiliau neu adnoddau cynlluniedig sydd eu hangen i reoli'r prosiect• Mae manylion rhagorol am y gweithgareddau neu'r gwasanaethau arfaethedig a fydd yn cael eu darparu gan y busnes•	Cryf (4-5)
---	------------

(c) Sgiliau ac adnoddau

Rhennir yr ymatebion yn dair adran:

- Profiad blaenorol
- Llywodraethu a strwythurau
- Recriwtio

Yn eu Cynllun Busnes, gofynnir i ymgeiswyr gynnwys manylion y canlynol o'u cynllun busnes:

- Profiad perthnasol o gyflawni prosiectau tebyg i hwn
- Unrhyw arbenigedd rheoli prosiect perthnasol
- Y rolau y mae'r ymgeisydd yn bwriadu eu recriwtio i helpu i reoli'r prosiect
- Llywodraethu
- Aelodau allweddol o'r busnes gan gynnwys eu:
 - Rôl
 - Prif gyfrifoldebau
 - Profiad a sgiliau



Yn gysylltiedig â'r wybodaeth a nodir ar gostau'r prosiect a hyfywedd ariannol a chynaliadwyedd y model busnes a aseswyd yn adrannau blaenorol yr achos rheoli. Rhaid i ymgeiswyr fod wedi nodi sut y maent wedi ystyried gofynion rheoli eu prosiect, a'r camau y byddant yn eu cymryd i sicrhau bod gan eu sefydliad y capasiti a'r adnoddau cywir i redeg y prosiect yn gynaliadwy.

Dylent hefyd roi manylion am sgiliau neu brofiad proffesiynol y tîm llywodraethu a allai helpu i gyflawni a rhedeg y prosiect yn effeithiol.

Dylai ymgeiswyr hefyd roi manylion am sut mae eu strwythurau llywodraethu yn gweithio, a sut y bydd y rhain yn cefnogi rhediad esmwyth y prosiect.

Rhaid iddynt hefyd ddangos a ydynt yn bwriadu recriwtio staff i reoli a rhedeg y prosiect a'i wasanaethau, a sut, gyda throsolwg cynhwysfawr o'r cynlluniau hyn.

Sut i sgorio Sgiliau ac Adnoddau	Sgor
<ul style="list-style-type: none">• Dangosir ymwybyddiaeth o ofynion rheoli'r prosiect mewn ffordd sy'n rhoi lefel resymol o hyder yng nghapasiti a gallu'r sefydliad i gyflawni'r prosiect.• Hanes o gyflawni naill ai prosiectau cysylltiedig neu unrhyw brosiect ar raddfa debyg, neu ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r capasiti a'r galluoedd sydd eu hangen.• Tystiolaeth resymol o brofiad o reoli prosiect Busnes.• Mae cynlluniau recriwtio wedi'u datblygu'n glir.• Cyflwynwyd tystiolaeth o strwythur llywodraethu gyda'r sgiliau a'r arbenigedd i reoli'r prosiect yn llwyddiannus. Gallai hyn fod y lleiafswm o ofynion, gyda pheth cynllunio olyniaeth ond cyfyngedig.• Darparu digon o wybodaeth glir neu gyson am gyfansoddiad rolau llywodraethu allweddol, i roi syniad o sut olwg sydd ar y broses gwneud penderfyniadau a sut mae llinellau adrodd a llwybrau uwchgyfeirio yn gweithio sy'n darparu lefel resymol o hyder y gall y tîm llywodraethu llywodraethu'r prosiect yn effeithiol a chadw'r prosiect ar y trywydd iawn i gyflawni ond efallai gydag ychydig o fân bryderon.	Boddhaol (0-1)



<ul style="list-style-type: none">• Dangosir ymwybyddiaeth o ofynion rheoli'r prosiect sy'n cwmpasu'r holl feysydd gofynnol mewn ffordd sy'n rhoi hyder yng nghapasiti a gallu'r sefydliad i gyflawni'r prosiect.• Hanes o gyflawni naill ai prosiectau cysylltiedig neu unrhyw brosiect ar raddfa debyg dros nifer o flynyddoedd.• Tystiolaeth sylweddol o sgiliau a phrofiad o reoli prosiect Busnes.• Mae cynlluniau recriwtio wedi'u datblygu'n glir.• Tystiolaeth wedi'i chyflwyno o strwythur llywodraethu gyda'r sgiliau a'r arbenigedd i reoli'r prosiect yn llwyddiannus, gyda thystiolaeth o gynllunio olyniaeth.• Gwybodaeth glir neu gyson ar y cyfan wedi'i darparu am gyfansoddiad y tîm llywodraethu, sy'n nodi'n glir rolau a chyfrifoldebau ac edrychiad y broses gwneud penderfyniadau ynghyd â manylion am sut mae llinellau adrodd a llwybrau uwchgyfeirio yn gweithio sy'n rhoi cryn sicrwydd bod y tîm llywodraethu yn gallu llywodraethu'r prosiect yn effeithiol a chadw'r prosiect ar y trywydd iawn i gyflawni	Da (2-3)
<ul style="list-style-type: none">• Dangoswyd ymwybyddiaeth gref o holl ofynion rheoli'r prosiect sy'n rhoi lefel uchel o hyder yng nghapasiti a gallu'r sefydliad i gyflawni'r prosiect.• Hanes profedig o gyflawni naill ai prosiectau cysylltiedig neu unrhyw brosiect ar raddfa debyg dros nifer o flynyddoedd.• Tystiolaeth arbennig o sgiliau a phrofiad o reoli prosiect Busnes.• Mae cynlluniau recriwtio wedi'u datblygu'n dda iawn.• Cyflwynwyd tystiolaeth gref o strwythur llywodraethu sy'n gweithio'n dda gyda'r holl sgiliau ac arbenigedd sydd eu hangen i reoli'r project yn llwyddiannus ac ymagwedd glir iawn at gynllunio olyniaeth.• Gwybodaeth gwbl glir neu gyson wedi'i darparu am gyfansoddiad y tîm llywodraethu, sy'n nodi'n glir rolau a chyfrifoldebau ac edrychiad y broses gwneud penderfyniadau ynghyd â manylion am sut mae llinellau adrodd a llwybrau uwchgyfeirio yn gweithio sy'n rhoi cryn sicrwydd bod y tîm llywodraethu yn gallu llywodraethu'r prosiect yn effeithiol a chadw'r prosiect ar y trywydd iawn i gyflawni heb unrhyw wendidau neu bryderon adnabyddadwy	Cryf (4-5)



Taflen Sgorio

	Sgor	Pwysiad	Sgôr wedi'i phwysoli
Achos Strategol			
Hygrededd y Prosiect		x1	
Manteision Arfaethedig		x2	
Achos Rheolaethol			
Dadansoddiad Ariannu		x1	
Risgiau a rhagolygon ariannol		x2	
Sgiliau ac Adnoddau		x1	
Swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd (0.5 y swydd hyd at uchafswm o 5 pwynt)			

* Gweler Meini Prawf Asesu am isafswm y sgorau ar gyfer y rhestr fer



Busnes@
gwynedd.llyw.cymru

